| | |
|---|---|
| Teitl y gweithgaredd: | *Return Journey* |
| Disgrifiad: | Gwaith map o gwmpas y Blitz Tair Noson |
| Blynyddoedd ysgol: | CA2 |
| Cysylltiad â'r FfLlRh: | **Canfod, dethol a defnyddio gwybodaeth**<br>*** Strategaethau Darllen**<br>Bl3:<br>• dod o hyd i wybodaeth ar dudalennau gwe gan ddefnyddio nodweddion sgrin<br>Bl4:<br>• dod o hyd i wybodaeth a syniadau ar dudalennau gwe, gan ddefnyddio gwahanol ffyrdd o chwilio ac asesu pa ffyrdd yw'r rhai mwyaf effeithlon<br>Bl5:<br>• defnyddio gwybodaeth o ffynonellau yr ymddiriedir ynddynt ar sgrin ac ar bapur, gan ddethol a lawrlwytho yn ôl yr angen<br>Bl6:<br>• chwilio ar y rhyngrwyd yn ofalus gan benderfynu pa ffynonellau i'w darllen a'u credu<br><br>**Trefnu syniadau a gwybodaeth**<br>*** Strwythur a threfn**<br>Bl3:<br>• defnyddio gwybodaeth weledol os yw'n berthnasol, e.e. diagramau wedi'u labelu<br>Bl4:<br>• defnyddio gwybodaeth weledol, e.e. darluniau, diagramau a graffiau, sy'n glir ac yn berthnasol i'r testun ysgrifenedig<br>Bl5:<br>• defnyddio delweddau, graffiau a darluniau sy'n glir, yn berthnasol ac yn briodol<br>Bl6:<br>• defnyddio nodweddion a diwyg sydd wedi'u llunio er mwyn cyflwyno data a syniadau'n glir |
| Testun Dylan Thomas | *Return Journey*<br>- p73 hyd at " …wicked February Morning"<br>- p77 O "I went out of the hotel into the snow…" hyd at p78 "…Edwardian holy of best-bitter holies…" |
| Offer angenrheidiol: | • Clip o Hannah Ellis yn sôn am *Return Journey*<br>• https://www.youtube.com/watch?v=AMpdFZu-lLk<br>• Google Maps |

| | |
|---|---|
| Trefn a awgrymir: | • Gwyliwch gyfweliad (Saesneg) Hannah Ellis am deulu Dylan a sut aeth ati i ysgrifennu *Return Journey*. Trafodwch beth maen nhw wedi'i ddysgu am Dylan o glywed gwybodaeth Hannah am fywyd ei Thad-cu.<br>• Darllenwch y darnau o *Return Journey* fel uchod. Ydy'r dysgwyr yn gallu codi unrhyw wybodaeth o'r testun a allai eu helpu i weld lle roedd yr Adroddwr (Narrator) yn sefyll?<br>• Gall y dysgwyr ddefnyddio Google Maps ac edrych ar ganol dinas Abertawe. Ydyn nhw'n gallu dod o hyd i Milton Terrace, Watkin Street and Fullers Row? Gan ddefnyddio'r wybodaeth honno ac unrhyw beth arall y maen nhw wedi'i gasglu o'r testun, ble maen nhw'n meddwl roedd Dylan yn ei ddisgrifio?<br>• Gofynnwch i'r dysgwyr edrych ar ddisgrifiadau Dylan o'r adeiladau *"Fish frailed, netbagged, umbrella'd…"* Ai geiriau go iawn ydy'r rhain? Beth yw eu hystyr, tybed? Pa ddelweddau y maen nhw'n eu cyfleu? |
| Cysylltiadau perthnasol: | • Dolenni defnyddio gyda lluniau o Abertawe ar ôl y Blitz Tair Noson<br>http://www.southwales-eveningpost.co.uk/PICTURES-Swansea-Blitz-1941/story-20650279-detail/story.html<br><br>http://www.explore-gower.co.uk/explore/swansea/world-war-ii<br><br>http://www.swansea.gov.uk/index.cfm?articleid=42116 |
| Gweithgareddau estyn: | Defnyddiwch y ddolen uchod a'r rhyngrwyd i ymchwilio i'r rhannau o Abertawe a gafodd eu dinistrio yn ystod y Blitz Tair Noson. Ydych chi'n gallu dod o hyd i'r ardaloedd hyn ar Google Maps?<br>Gallai'r dysgwyr wneud sgrinlun o Goggle Maps ac anodi'r ardaloedd a fomiwyd gan ddefnyddio ap *Skitch*<br>Gall y dysgwyr ddod o hyd i ddarluniau o fannau amlwg a gafodd eu bomio a'u cyfateb i ffotograffau o'r mannau hynny heddiw. |
| Addasu ar gyfer grwpiau oedran eraill: | Gallai dysgwyr gwaelod Cyfnod Allweddol 2 gwblhau'r gweithgaredd hwn fel gweithgaredd dosbarth cyfan yn hytrach na gweithgaredd grwpiau neu efallai y bydd angen i'r athro roi rhagor o enghreifftiau. |